



NEWYDDION YR ACADEMI

Y CYLCHLYTHYR O ACADEMI DELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU



CROESO

KATIE SMEATHERS
RHEOLWR CYMORTH GWEITHREDOL

Croeso i rifyn diweddaraf cylchlythyr Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADGC). Yn y rhifyn hwn, rwy'n falch o rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gweithgareddau diweddar ac amlygu rhai digwyddiadau cyffrous yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi cael y pleser o weithio'n agos gyda myfyrwyr meddygol – gan gynnwys croesawu dau fyfyrwr dewisol o Brifysgol Caerdydd, yn ogystal â chyflwyno Diwrnod Addysgu Meddygol pwrpasol i fyfyrwyr meddygol eraill Caerdydd.

Yn ogystal, fe wnaethom gynnal Diwrnod Sefydlu llwyddiannus i Sonograffwyr yn ddiweddar, ac rydym yn falch o ddweud y bydd yn cael ei ailadrodd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gan adeiladu ar ein hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol, mae ADGC hefyd wedi cefnogi prosiect PhD Dr Rory Clark dros y pedair blynedd diwethaf, a archwiliodd y defnydd o ddyfeisiau digidol mewn adrannau radioleg. Byddwn yn rhannu trosolwg o'i ganfyddiadau yn y cylchlythyr hwn.

GOBEITHIWN Y BYDDWCH YN MWYNHAU DARLLEN Y RHIFYN
HWN O GYLCHLYTHYR ADGC!



DEWCH I WYBOD:

MYFYRWYR MEDDYGOL
DEWISOL

2

DIWRNOD SEFYDLU'R
SONOGRAFFYDD

3

RORY CLARK

4

PARTNERIAETH AGORED

5

PROFFESORIAETH
YMWELD

6

CYRSIAU A
DIGWYDDIADAU

7



MYFYRWYR MEDDYGOL DEWISOL

MYFYRWYR MEDDYGOL YN CWBLHAU LLEOLIAD DEWISOL CYNTAF YN ACADEMI DELWEDDU GENEDLAETHOL CYMRU



TABITHA JONES



HENRIK HUMPHRIES

FO ddydd Llun 17 Chwefror i ddydd Gwener 14 Mawrth 2025, croesawodd Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (ADGC) ddau Fyfyriwr Meddygol Prifysgol Caerdydd, Henrik Humphries a Tabitha Jones, am leoliad dewisol pedair wythnos–y cyntaf o'i fath i'r Academi.

Yn ystod eu hamser gyda DGC, mynychodd y myfyrwyr amrywiaeth o sesiynau addysgu a chysiau, gan ennill profiad gwerthfawr mewn radioleg glinigol. Roedd eu lleoliad hefyd yn cynnwys lleoliadau clinigol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg (YBG) ac Ysbyty Felindre.

Mynegodd y ddau fyfyriwr frwdfrydedd cryf am y profiad, gan argymhell y pwnc dewisol i fyfyrwyr meddygol yn y dyfodol a nodi ei fod wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar eu diddordeb mewn gyrfa mewn radioleg.

DYMA RAI MYFYRDODAU A RANNON NHW AM EU SESIYNAU ADGC:

“Roedd mynychu sesiynau addysgu o fewn ADGC wedi rhoi cipolwg ar sut beth fydd y broses hyfforddi yng Nghymru a hefyd ein hamlygu i'r ystod eang o dechnegau delweddu sy'n cael eu defnyddio o fewn radioleg a rhoi sgiliau i mi mewn dehongli delweddau a fydd yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen i Flwyddyn Sylfaen 1.

“Roedd y cyfle i weithio gyda pheiriannau USS o fewn yr ystafell hyfforddi wedi darparu profiad ymarferol gwerthfawr. Dysgais anatomeg a phatholeg sylfaenol, gan wella fy nealltwriaeth o ddelweddu meddygol a'i gymwysiadau ymarferol mewn gofal iechyd

WRTH FYFYRIO AR EU LLEOLIAD YN YSBYTY BRENHINOL MORGANNWG, DYWEDON NHW:

“Y cyfle i weld sut mae timau amlddisgyblaethol (MDTs) yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu gofal cynhwysfawr i gleifion. Roedd bod yn bresennol yn y trafodaethau hyn wedi rhoi mewnwelediad i mi i sut mae radiolegwyr yn cyfrannu'n sylweddol at wneud penderfyniadau clinigol.

YN YSBYTY FELINDRE, FE WNAETHON NHW BARHAU I EHANGU EU PROFAD:

“Roedd Ysbyty Felindre yn gyfle gwych i ehangu fy amlygiad clinigol, yn enwedig mewn meysydd nad oeddent wedi cael sylw yn ystod fy lleoliad yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Un o'r uchafbwyntiau oedd arsylwi sgan PET. Roedd yn ddiddorol dysgu am ei rôl mewn delweddu oncoleg a sut mae'n cyfrannu at ddiagnosis a chynllunio triniaeth

MAE'R LLEOLIAD LLWYDDIANNUS HWN WEDI PARATOI'R Ffordd ar gyfer Pynciau Dewisol yn y Dyfodol yn ADGC, gan gynnig cyflwyniad unigryw a manwl i fyfyrwyr meddygol i fyd radioleg yng Nghymru.



DIWRNOD SEFYDLU'R SONOGRAFFYDD



Ar Ebrill 7fed, croesawon ni fyfyrwyr sonograffeg newydd gofrestru i ddiwrnod sefydlu yn NIAW. Cafodd y digwyddiad ei drefnu gan Lynne Francis (ADGC) a Gill Lingwood (Rhaglen Delweddu Genedlaethol) ac roedd wedi'i anelu at fyfyrwyr sonograffeg o gefndiroedd proffesiynol amrywiol yng Nghymru, gan roi gwybodaeth sylfaenol iddynt am offer uwchsain ac ymarfer clinigol ymarferol dan oruchwyliaeth sonograffwyr profiadol gan ddefnyddio modelau byw, efelychwyr a dyfeisiau Phantom.

Roedd yr agenda yn cynnwys:

- Cyngor Ymestyn Corff Uchaf i Sonograffwyr gyda James Farrington (Sonograffydd Ffisiotherapi, BIPHDd)
- Dealltwriaeth sylfaenol o knoboleg ac ergonomeg sganiwr
- Sesiynau Ymarfer Clinigol Sylfaenol Ymarferol gyda'r sonograffwyr Laura Macdermott, (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Sian Richards (BIPHDd) a Sophie Wong (BIPAB)
- Cyflwyniad i'r efelychwyr a'r rhithiau yn ADGC gyda Laura Jenkins o Intelligent Ultrasound

Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol, gyda'r mynychwyr yn canmol AGDC am fod yn fodern, yn eang, ac wedi'i gyfarparu'n dda. Fe wnaethant dynnu sylw at ddefnyddioldeb yr efelychwyr sgan a'r dyfeisiau phantom sydd ar gael. Pwysleisiodd llawer o sylwadau'r awyrgylch croesawgar ac ymarferoldeb y cyfleusterau. Canfu'r cyfranogwyr fod cynnwys y cwrs yn ddiddorol ac yn fuddiol, gan werthfawrogi'n arbennig y profiad ymarferol gydag efelychwyr a sesiynau ymarferol. Roedd y sylwadau'n adlewyrchu amgylchedd dysgu cefnogol a hwyluswyd gan hyfforddwyr gwybodus.



YN DILYN LLWYDDIANT Y DIWRNOD SEFYDLU, RYDYM YN BWRIADU AILADRODD Y DIGWYDDIAD ETO YM MIS HYDREF. AM RAGOR O WYBODAETH NEU I GOFRESTRU, CYSYLLTWCH Â'R TÎM GWEINYDDU.



YMCHWILIADAU I DDEFNYDD DYFEISIAU MEWN ADRANNAU RADIOLEG

RORY CLARK, PRIFYSGOL ABERTAWE

Mae prosiect PhD a noddwyd gan ADGC "Ymchwiliadau i Ddefnydd Dyfeisiau mewn Adrannau Radioleg" gan Rory Clark o Brifysgol Abertawe wedi'i gwblhau a'i gyflwyno. Dechreuodd y prosiect cydweithredol fel rhan o Ganolfan Hyfforddiant Doethurol Abertawe yn 2021, ac mae wedi cynhyrchu 2 gyhoeddiad cynhadledd a adolygwyd gan gymheiriaid a gyd-awdurwyd gydag aelodau o'r ADGC, 1 poster a gyflwynwyd yng Nghyngres Radioleg Ewrop, a chyflwyniad arobryn yn Niwrnod Ymchwil a Datblygu GIG Cwm Taf Morgannwg.



Mae traethawd ymchwil Rory yn archwilio'r berthynas rhwng y radiolegydd a'u dyfeisiau digidol yn y gwyllt, gan gyfeirio at sefyllfaoedd byd go iawn lle gall ffactorau amgylcheddol effeithio ar agweddau ar ddylunio a gweithredu nad ydynt efallai'n cael eu cynnwys mewn profion a metrigau safonol. Dros gyfnod y PhD, mae'r gwaith yn archwilio pynciau megis safbwyntiau radiolegwyr pan bydd gofyn iddyn nhw drafod sut maen nhw'n teimlo am y dyfeisiau maen nhw'n eu defnyddio fel rhan o weithgaredd grŵp ffocws, sut mae gwahanol ddewisiadau a phatrymau ymddygiad yn effeithio ar gyfathrebu canlyniadau ar draws safle ysbyty, a sut y gall systemau rhyngweithiol sy'n seiliedig ar lais gynhyrchu camgymeriadau wrth lunio adroddiadau diagnostig, a ffyrdd o'u lliniaru.

Rhoddodd y gwaith hwn fewnwelediad i'r ffyrdd y mae radiolegwyr yn rhyngweithio ac yn cydweithio â systemau digidol wrth lunio a chyfleu eu barn ddiagnostig. Er enghraifft, canfu Rory lawer iawn o ddewisiadau personol o ran rhyngweithio â dyfeisiau: mae gan bob radiolegydd ei ffordd ei hun o ysgrifennu adroddiad, o siarad i mewn i dictaffon ac o olygu adroddiad gorffenedig. Roedd hyn wedi golygu bod yn rhaid i'r dyfeisiau a weithredwyd yn yr amgylcheddau hyn gadw elfen o "ddyluniad generig" i ganiatáu i'r ymarferwyr hyn argraffu eu technegau a'u dulliau eu hunain arnynt, yn hytrach na dyluniad penodol iawn a oedd yn annog rhyngweithiadau safonol.

Mewn enghraifft debyg, canfu'r gwaith hyd at 10 dull o gyfleu canlyniad astudiaeth feddygol gyda chlinigwr atgyfeiriol, gan gynnwys yn amrywio o linellau tir mewnol, Microsoft Teams neu Outlook i adael eu swyddfa'n gorfforol i ddod o hyd i'r aelod staff perthnasol i'w drafod yn bersonol. Er efallai nad yw hyn yn ymddangos yn berthnasol ar gyfer dylunio, mae'n bwysig nodi bod y dull cyfathrebu a ddewiswyd yn seiliedig ar ddewis y radiolegydd, eu gwybodaeth am yr unigolyn yr oeddent yn ceisio cysylltu ag ef, natur a difrifoldeb y canlyniad, a ffactorau bach tawel a chyd-destunol eraill; mae hyn yn arwain at broblem gymdeithasegol gymhleth a deinamig iawn y mae'n rhaid ei datrys yn gyflym.

At ei gilydd, cynhyrchodd y traethawd ymchwil lawer iawn o ganllawiau, cyngor a deunydd academiaidd i radiolegwyr eu hystyried pan fyddant yn rhyngweithio â dyfeisiau digidol yn y gweithle, ac mae'n eu hannog yn gryf i beidio â chymryd y rhyngweithiadau hyn yn ganiataol.

**MAE GWAITH RORY AR GAEL AR LYFRGELL DDIGIDOL ACM, NEU GALLWCH SIARAD AG EF
AM EI YMCHWIL TRWY E-BOSTIO RORY.CLARK@BRISTOL.AC.UK**



DATHLU EIN PARTNERIAETH AGORED CYMRU



MEG BURGESS (AGORED), SAM HOPKINS (AGORED), TERESA DAVIES-ELVIN (HEIW), MAIR DAVIDSON (NIAW), TRACY NORRIS (NIAW)

Rydym yn falch o gyhoeddi carreg filltir bwysig yn ADGC: fel Canolfan Agored Cymru gymeradwy, mae ein carfan gyntaf o ddysgwyr wedi cwblhau'r cwrs Perfformio Gosod Canwla Mewnwythiennol (Lefel 3) yn llwyddiannus. Llongyfarchiadau i'r pum dysgwr—rydym yn canmol eich ymroddiad a'ch gwaith caled.

Yn gynharach y mis hwn, cawsom y pleser o groesawu sawl partner allweddol i'r Academi. Croesawodd Tracy Norris, Rheolwr ein Hacademi, a Mair Davidson, ein Rheolwr Ansawdd, Sam Hopkins—Rheolwr Datblygu Busnes Agored newydd ADGC—a Meg Burgess, Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata yn Agored Cymru. Roeddem hefyd wrth ein bodd yn croesawu Teresa Davies-Elvin, Rheolwr Ansawdd yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), y mae ei chefnogaeth barhaus—ochr yn ochr â chefnogaeth tîm ehangach AaGIC—wedi bod yn amhrisiadwy wrth ddatblygu'r bartneriaeth hon.

Yn ystod eu hymweliad, aeth ein gwesteion ar daith o amgylch yr Academi a rhannu eu brwdfrydedd dros ein cyfleusterau a'r gwaith effeithiol sy'n cael ei wneud.

**RYDYM YN GYFFROUS I BARHAU I ADEILADU AR Y LLWYDDIANT HWN DRWY GYFLWYNO
MWY O RAGLENNI ACHREDEDIG AGORED, RHAU CYFREDOL A RHAU NEWYDD, GYDA
CHEFNOGAETH BARHAUS AGORED CYMRU AC AAGIC.**



PROFFESORIAETH YMWELIADOL ASHNR-BSHNI

DR MOHIT AGARWAL



Mae Cymdeithas Delweddu'r Pen a'r Gwddf Prydain (BSHNI), ar y cyd â Chymdeithas Radioleg y Pen a'r Gwddf America (ASHNR), wedi sefydlu Rhaglen Proffesoriaeth Ymweld. Nod y fenter ddwywaith y flwyddyn hon yw codi ymwybyddiaeth o'r arbenigedd ac annog preswylwyr i ddilyn hyfforddiant is-arbenigedd mewn Delweddu'r Pen a'r Gwddf.

Eleni, rydym wrth ein bodd yn croesawu Dr Mohit Agarwal, addysgwr Niwroradioleg enwog a Chyfarwyddwr Rhaglen Gymrodoriaeth yng Ngholeg Meddygol Wisconsin, yn Athro Ymweliadol ASHNR-BSHNI cyntaf i'r Deyrnas Unedig.

Dewisodd Ymwelodd Agarwal â ADGC ym mis Mehefin 2025 a chanolbwyntiodd ei sesiwn ar bynciau craidd Delweddu'r Pen a'r Gwddf. Mae ei sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer Hyfforddeion Radioleg Blwyddyn 1-3, sy'n cynnwys y themâu canlynol:

- Delweddu Pen a'r Gwddf Brys
- Orbitau a Sinysau
- Asgwrn Temporal
- Meinwe Feddal y Gwddf

Yn ogystal, cynhaliodd sesiynau gwyllo ffilmau byw, gydag achosion yn cael eu rhannu ymlaen llaw trwy PACSBin, wedi'u teilwra'n benodol ar gyfer preswylwyr sy'n paratoi ar gyfer arholiadau FRCR 2B.



CROESAWON NI HYFFORDDEION ADGC I'R DDARLITHFA, OCHR YN OCHR AG YMGYNGHORWYR O BOB CWR O DDE CYMRU. ROEDDEM HEFYD YN FALCH O GAEL EIN HYMUNO'N RHITHWIR GAN NIFER O HYFFORDDEION RADIOLEG O DDEONIAETH Y DE-ORLLEWIN.

RYDYM EISOES YN EDRYCH YMLAEN AT EIN HATHRO TEITHIOL NESAF, DR MARK CALLAWAY, A FYDD YN YMUNO Â NI YM MIS GORFFENNAF 2025.



CYRSIAU A DIGWYDDIADAU SYDD AR DDOD

ENW'R CWRS/DIGWYDDIAD

FAMUS & FUSIC - Cwrs Abdomenol ac Arennol
FAMUS A FUSIC - Cwrs Ysgyfaint
Diwrnod Astudio Oncoleg
Cwrs Strôc Acíwt
Athro Teithiol - Dr Mark Callaway
Cwrs Adolygu FRCR Iib
Cwrs Mynediad Fasgwlaidd dan Arweiniad Uwchsain
Athro Teithiol - Du Boulay
Cwrs Pelydr-X ar y Frest
Cwrs Mynediad Fasgwlaidd dan Arweiniad Uwchsain

DYDDIAD

Dydd Llun 30 Mehefin 2025 (AM)
Dydd Llun 30 Mehefin 2025 (PM)
Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2025
Dydd Llun 7 a Dydd Mawrth 8 Gorffennaf 2025
Dydd Gwener 11 Gorffennaf 2025
Dydd Llun 8 a Dydd Mawrth 9 Medi 2025
Dydd Llun 15 Medi 2025
Dydd Mercher 17 Medi 2025
Dydd Iau 18 a Dydd Gwener 19 Medi 2025
Dydd Llun 29 Medi 2025

RHAGLEN DDELWEDDU GENEDLAETHOL CHNHADLEDD FLYNYDDOL 2025

*Llunio'r Dyfodol: Trawsnewid Delweddu yng
Nghymru drwy Arloesi ac Ymchwil*



CADWCH Y DYDDIAD

National Imaging Academy Wales
Dydd Gwener 7 Tachwedd 2025



Academi Ddelweddu
Genedlaethol Cymru
National Imaging
Academy Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhaglen Delweddu
Genedlaethol
National Imaging
Programme



Academi Ddelweddu
Genedlaethol Cymru
National Imaging
Academy Wales



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Rhaglen Delweddu
Genedlaethol
National Imaging
Programme





@nationalimagingacademywales



@ImagingAcademy



@academiddelwedducymru



National Imaging Academy Wales

WWW.IMAGINGACADEMY.WALES
